ARARAT

Chwythu fu y gwyntoedd
Erioed dros dir y byw
O Eden bell yn ddi-baid
I'r coed yn Nhroed y Rhiw
I sgrechian yn y brigau
I gorddi dwr y don
Fe chwythodd ni drwy amser
At greigiau'r ynys hon.

Fe welwyd ni yn dawnsio
Ar fyrddau'r llongau hud
Fe glywid ni yn canu
A'n cefnau at y byd
Ac ar o1 y llong ddrylliad
Wrth guro'r creigiau maeth
Glynwn wrth y sbwriel
A olchwyd ar y traeth.

Mae'r gwynt yn chwythu storom
I dynnu'r coed o'r tir
Fe wel y dail yn casglu
Yn bentwr wrth y mur
Ac yn y dail mae pluen wen
O aden y golomen
Fu'n hedfan yn ddigartre
I Ararat o Eden.

Ar goll yn y tywyllwch
Ar goll yng nghell ein byd
Yn disgwyl am y glanio
Ar Ararat o hyd.

© Geraint Griffiths 1998